
# Cylchgrawn Cyfeillon y Ddaear
# Ruthin Friends of the Earth Magazine
## Autumn/Hydref 2026
## Issue/Rhifyn 15

https://ruthinfoe.org
foe.ruthin@gmail.com



# In this Issue


- **Simple Truths and Nature** by Barry Hills
- **Poetry** by Annalise Venkat
- **Chester Musicians and North Wales Poets Raising Money for Nature** by Pat Sumner
- **Youth Volunteer Group** by David Denning
- **A Fleeting Glimpse** by Phil Bennett-Lloyd
- **Lab Dwr Clwyd - River Water Quality Project Update** by Brian Peters
- **Sustainable Consumerism** by Diana Sanders
- **Climate and Nature Emergency Film Screenings in Ruthin and Denbigh** by Christine Meirion, Sue Lewis and Susanna Clayton


# Yn y Rhifyn Hwn


- **Uniondeb a Natur** gan Barry Hills
- **Barddoniaeth** gan Annalise Venkat
- **Cerddorion Caer a Beirdd y Gogledd yn Codi Arian i Helpu Natur** gan Pat Sumner
- **Grŵp Gwirfoddolwyr Ifanc** gan David Denning
- **Cipolwg Sydyn** gan Phil Bennett-Lloyd
- **Lab Dŵr Clwyd – Diweddariad ar Brosiect Ansawdd Dŵr Afonnydd** gan Brian Peters
- **Prynu'n Gynaliadwy** gan Diana Sanders
- **Yr Argyfwng Hinsawdd a Natur – Ffilmiau yn Rhuthun a Dinbych** gan Christine Meirion, Sue Lewis a Susanna Clayton

## Simple Truths and Nature by Barry Hills

Now here's the thing: everybody loves the beauty of flowers, but in my case my favourites are all early arrivals - snowdrops, cowslips, daffodils, bluebells.
And here they are: all in abundance, bursting out all over our gardens and hedgerows; free to look at and gorgeous in their ability to uplift our spirits. I pick up a magazine and there are the inevitable long-winded, earnest and complex instructions on how to maintain some 'exotic' and difficult plant from some place in the world with a totally different climate from ours.
Yet, looking out from my window I can see a field resplendent in vivid yellow: dandelions. Plentiful, stunning, pretty and… common. So, what do we do? We rush off to the shop to buy 'weed' killer to get rid of them. If dandelions were incredibly rare, difficult to grow and expensive to buy, we would covet them. But they are common, good natured, and regular visitors, so we class them as weeds.

It makes me think of our relationship with our planet and environment. 'Friends of the Earth' call themselves just that. Friends. Not interpreters, justifiers, examiners, judges. 'Friends'. People who can find beauty in the common which is just a way of finding beauty in clarity and directness - seeing nature as a mirror of the truth of our existence. To be a Friend of the Earth is to be the sort of person who, can in the words of the poet William Blake, "...see a world in a grain of sand, and a heaven in a wild flower, hold infinity in the palm of your hand, and eternity in an hour"
The grain in a piece of lovely wood, the smell of a bluebell wood after rain, the beautiful mottled skin of a common frog, the wary bright eyes of a hare are simple common things that possess an authenticity in the same way that a carefully crafted ceramic mug doesn't pretend to be a golden chalice - but just is the quiet integrity of grace.
Now some of us can appreciate the gentle wisdom of Blake's words, but of course there will be some who haughtily consider it 'simplistic'. You know the arguments: forever going on about environment and nature is "naive"; we

cannot talk about prioritising our fragile environment as in fact the truth is "too nuanced"; we are wilfully and stupidly ignoring "complex socioeconomic paradigms" we are putting our worries about the quality of life before economic needs (as if life exists for the economy, not the other way round!); dreamily talking about a beautiful sunset is to be almost Neanderthal: we can always put more money into non-fungible blockchain-based digital identifiers that will provide a better representation of sunset experiences.
Do they think we are stupid? (Spoiler alert: yes, they do). Because their three faithful tricks so often work:

1. Overcomplicate. Sneer at innocent integrity. Call it an unsolvable conundrum.
2. Devalue the accessible. If something doesn't cost a fortune or require a specialist to explain then it isn't a 'real' truth.
3. Create noise to hide the signal. Flood the conversation with irrelevant data to drown out simple uncomfortable truths.

We can reclaim beauty and nature and that is to reclaim the truth from the "time is money" obsessives. When the concrete-it-cover-it-cut-it-down- because-the-'economy'-needs-it Brigade next try to crowd you, just look at a tree, stare at a dandelion, watch a butterfly, admire the delicacy of a ladybird. The raucous little boy who shouted out "But the king has no clothes" did not have a degree in fashion design. He just stood his ground and said what he saw. We too can freely look at the simple, beautiful reality of nature right in front of us. It regenerates us. It is our free therapy.
We are better than the sneerers. And there are more of us. When I last called in at the Repair Cafe I was reminded of the writer Martin Buxbaum's words: "Some people, no matter how old, never lose their beauty - they merely move it from their faces into their hearts."

We can do it because we have the heart.

## Gwirionedd a Natur gan Barry Hills

Y gwir amdani yw bod pawb yn caru harddwch blodau, ond o'm rhan i, mae fy hoff flodau'n digwydd bod yn rhai sy'n cyrraedd yn gynnar - eirlys, dagrau Mair (*cowslips*), cennin Pedr, clychau'r gog.

A dyma nhw i gyd yn llenwi ein gerddi ac ar hyd y gwrychoedd; a ninnau'n cael y pleser o edrych arnynt am ddim, wrth i'w prydferthwch ddod â llawenydd i'n calonnau. Gallaf godi cylchgrawn a gweld ynddo'r cyfarwyddiadau hirwyntog a chymhleth arferol ar sut i ofalu am ryw blanhigyn 'ecsotig' anodd ei dyfu o rywle ymhen draw'r byd lle mae'r hinsawdd yn gwbl wahanol i'n hinsawdd ni.

Ar y llaw arall, wrth edrych allan drwy'r ffenest, gallaf weld carped o ddant y llew yn eu holl ogoniant melyn. Llond y lle ohonynt, yn drawiadol, yn dlws ac ... yn gyffredin. Felly, beth a wnawn ni? Rydym yn brysio i'r siop i brynu rhyw gemegyn lladd chwyn i gael gwared arnynt. Pe bai dant yn llew yn flodyn prin, sy'n anodd ei dyfu ac yn ddrud i'w brynu, byddem yn awyddus i berchen ar un ohonynt. Ond ymwelwyr cyffredin ydyn nhw, ac er gwaethaf eu hwynebau heulog, rydym yn rhoi'r enw chwyn arnynt.

Mae'n gwneud imi feddwl am ein perthynas â'n planed a'r amgylchedd. Cyfeillion y Ddaear yw ein henw yn syml iawn. Ie cyfeillion ydyn ni. Nid dehonglwyr, cyfiawnhawyr, archwilwyr, beirniaid. 'Cyfeillion'. Ac felly'n bobl sy'n gallu canfod harddwch yn yr hyn sy'n gyffredin a chanfod harddwch mewn eglurder a gonestrwydd – gan weld natur fel drych sy'n adlewyrchu uniondeb ein bodolaeth. I fod yn Gyfaill i'r Ddaear, rhaid eich bod yn rhywun sydd, yng ngeiriau'r bardd William Blake, yn gweld "*...a world in a grain of sand, and a heaven in a wild flower, hold infinity in the palm of your hand, and eternity in an hour*"

Patrwm y graen mewn darn o bren, arogl coetir llawn clychau'r gog wedi'r glaw, croen brith prydferth y llyffant cyffredin, llygaid disglair gwyliadwrus ysgyfarnog, mae'r pethu hyn i gyd yn drysorau cyffredin a syml sy'n dod â'u huniondeb unigryw; nid yw mwg seramig sydd wedi ei wneud gan grefftwr yn ffugio bod yn gwpan aur ysblennydd – yn hytrach daw ei bresenoldeb o'i onestrwydd diffwdan.

Bydd rhai ohonom yn gallu gwerthfawrogi doethineb dirodres geiriau Blake, ond wrth gwrs bydd rhai yn eu haerllugrwydd yn dweud na ellir eu cymryd cymaint â hynny o ddifrif. Yr un hen diwn gron: dim ond pobl ynfyd sy'n mynd ymlaen ac ymlaen am yr amgylchedd a natur; ni ddylid sôn am flaenoriaethu ein hamgylchedd bregus gan fod y gwirionedd yn rhy gymhleth; rydym yn mynnu bod mor dwp ag anwybyddu ystyriaethau economaidd-gymdeithasol anodd eu deall, gan roi ein pryderon am ansawdd bywyd uwchlaw anghenion economaidd (fel petai bywyd yn bodoli ar gyfer yr economi, yn hytrach na fel arall!). Mae siarad yn freuddwydiol am fachlud haul yn ei ogoniant bron yn Neanderthal i rai, a gallwn bob amser roi mwy o arian i adnoddau digidol unigryw sy'n gallu creu darlun gwell o fachlud haul inni ei fwynhau.
Ydyn nhw'n credu ein bod yn hurt. (Mewn gair: ydyn) Yn aml iawn, mae eu hystrywiau arferol yn gweithio:

- Cymhlethu gormodol. Dangos dirmyg tuag at uniondeb ddiffuant. Galw'r her hollbwysig hon yn her nad oes ateb iddi.
- Lleihau gwerth yr hyn sydd ar gael yn rhwydd. Rhaid i bethau gwerthfawr gostio ffortiwn, neu os nad oes arbenigydd wrth law i egluro rhywbeth, ni all fod yn wirionedd go iawn.
- Creu sŵn i guddio'r arwyddion. Llenwi'r sgwrs gyda data amherthnasol i foddi gwirioneddau amlwg anghyfforddus.

Gallwn adennill ein gwerthfawrogiad o harddwch a natur a chipio'r gwirionedd nôl o grafangau'r rheini sy'n taeru bod amser yn gyfystyr ag arian. Y tro nesaf y bydd y criw 'rhoi concrit drosto a'i dorri i lawr er lles yr economi' yn bygwth, cymerwch amser i edrych ar goeden neu flodyn dant y llew, neu wylio glöyn byw neu gael eich cyfareddu ganfuwch goch gota yn hedfan. Nid oedd gan y bachgen bach a waeddodd 'Does dim dillad gan y Brenin' radd mewn dylunio ffasiwn. Roedd jyst yn dweud ei ddweud. Rydym ninnau'n rhydd i edrych ar realiti natur yn ei holl brydferthwch. Mae'n ein cryfhau yn gorfforol ac yn feddyliol.

Rydym ni'n well na'r rheini sy'n tywallt eu dirmyg ar y byd. A ni sydd yn y fwyafrif diolch byth. Pan alwais ddiwethaf yn y Caffi Trwsio, cefais f'atgoffa o eiriau'r awdur Martin Buxbaum: "*Some people, no matter how old, never lose their beauty - they merely move it from their faces into their hearts.*"

A gallwn ni lwyddo oherwydd yr hyn sydd yn ein calonnau.



## The High Street by Annelise Venkat

A shaft of dawn sunlight lands
on cracked paving
and discount stickers
in windows taped over to stop
the spread of glinting grins
and glistening pocks
where Saturday night revellers
became Sunday morning statistics.
A&E doors admit a steady stream
of bloodied drunks,
of puking drunks,
of over-jubilant-night-cut-short-drunks.
While wine bar doors eject
uninhibited couples and boisterous groups
in search of taxi's and take-aways
to finish the night.

A lone dandelion pushes through
pavement cracks and broken glass.
Unfurling tendrils as he turns
his mighty face basking towards
his reflection up above.
The dawn hush reverently hails his awakening
but the high street remains stoic,
unmoved by this feat of nature
forcing his roots between the cracks,
thrusting his head amidst the harshness
of concrete and brick, hazards
of a world no longer recognisable.

## Cerddorion Caer a Beirdd y Gogledd yn Codi Arian dros Natur gan Pat Sumner

Dros yr haf, bu grŵp o feirdd o'r Gogledd a cherddorion o Gaer yn cydweithio yn y gobaith o godi arian dros natur,

Y beirdd yw Leaf Pettit, Diana Sanders, Andrew Sumner a Patricia Sumner, sy'n byw ger Rhuthun. Fe wnaethant recordio'u cerddi o'u casgliad '*I Am Nature: Environmental Poetry*' a gyhoeddwyd gan Veneficia Publications. Y Cerddorion yw Shemboid a Vince Cory o Gaer.

Drwy gydweithredu ar draws y gwahanol ddisgyblaethau, rhywbeth y soniwyd amdano gyntaf gan Dan Schott ar Circl8 Radio, fe wnaethant recordio pedair cerdd gyda thraciau sain, sydd ar gael i'w lawrlwytho yma: circl8radio.bandcamp.com/album/i-am-nature-ep

Roedd y beirdd i gyd wedi eu plesio'n arw gyda dehongliadau'r cerddorion o'u gwaith; crëwyd tirweddau sain sensitif sydd wedi ychwanegu dimensiwn newydd a ffres i'w cerddi.

Gwnaeth y bardd ac artist sain, Diana Sanders, gyfuno'r gerddoriaeth a'r geiriau i greu albwm digidol terfynol. Dywedodd Diana: "Rydyn ni wrth ein boddau â'r traciau sain sydd wedi'u creu. Mae pob cerdd yn unigryw ac yn gyflawn ynddi'i hun, ond ar ôl iddyn nhw gael eu cyfuno â'r gerddoriaeth gan Shemboid a Vince Cory, maen nhw'n troi'n fwy o gorws – yn fwy 'cymuned' nag 'unigolyn', llai o 'fi' a mwy o 'ni'. "

Mae'r tîm creadigol yn gobeithio y bydd y cydweithrediad celf amgylcheddol hwn yn helpu i godi arian ar gyfer Tir Natur, elusen sydd wedi sicrhau safle 1,195 o erwau yng Nghwm Doethïe ym Mynyddoedd Cambria i sefydlu safle dad-ddofi tir mwyaf Cymru. Gweledigaeth Tir Natur yw gweld Cymru'n wlad lle mae cymunedau a natur gwyllt yn ffynnu gyda'i gilydd, lle mae ecosystemau'n cael eu hadfer yn llawn, a phobl yn ailddarganfod eu lle ynddynt. Mae'n awyddus i weld mannau lle mae byd natur wrth y llyw, ac yn penderfynu ar ei gwrs ei hunan. Roedd y beirdd yn teimlo bod eu casgliad o eco-farddoniaeth yn gyfan gwbl gydnaws â gweledigaeth a nod Tir Natur a bod Tir Natur felly'n cynnig ei hun fel yr elusen berffaith i'w chefnogi drwy eu geiriau a'u cerddoriaeth.

Mae'r albwn digigol a ryddhawyd yn ddiweddar yn cynnwys:

'Weeds' gan Leaf Pettit, gyda cherddoriaeth gan Shemboid
'Shaman' gan Andrew Sumner, gyda cherddoriaeth gan Shemboid
'Dark Angels' gan Diana Sanders, gyda cherddoriaeth gan Vince Cory

'September Evening, Dyffryn Clwyd' gan Patricia Sumner, gyda cherddoriaeth gan Shemboid

Dywedodd y creawdwr digidol a gitarydd Vince Corry, "Dw i mor hapus o gael y cyfle i gymryd rhan mewn prosiect pwysig fel hwn, a'r gobaith yw y gallwn ni godi rhywfaint o arian tuag at achos gwych. O'm rhan i, wrth weithio ar 'Dark Angels', y geiriau ac ysbrydoliaeth Diana oedd wedi llywio'r gerddoriaeth – mae'n amlwg ei bod yn saer geiriau penigamp gyda chalon gynnes. Gwrandewch a gwelwch, mae'n siarad cyfrolau."

Dywedodd Shemboid, cerddor sy'n creu profiadau sain a phrofiadau gweledol i ymgolli ynddynt, "Mae'n bleser bod yn rhan o'r prosiect hwn. Mae creu profiadau amgylcheddol i ymgolli ynddynt yn bwysig i mi, ac mae helpu gyda'r gwaith hwn yn golygu lot, dim yn unig i mi ond hefyd i'r byd yn ehangach. Mae'r cerddi hyn yn rymus, yn bwysig, ac yn berthnasol i'n bywydau ni i gyd heddiw. Ro'n i wedi mwynhau'r her o greu tirweddau sain i gyd-fynd â'r darlleniadau hyn a oedd yn llesol imi fel rhywun a oedd yn cyfrannu at y gwaith gwych hwn. Ymlaen â'r ymgyrch ddad-ddofi a bydded i'r ymgyrch tir gwyllt barhau i dyfu!"

Ychwanegodd Dan Schott o Circl8Radio yng Nghaer, "Roedd gweithio gyda Shemboid ar y gerddoriaeth ar gyfer '*I Am Nature*' yn fraint go iawn. Beirdd o Ogledd Cymru, cerddorion o Gaer, yr elw yn mynd yn uniongyrchol at brosiect dad-ddofi Tir Natur yng Nghymru ... roedd i gyd yn golygu rhywbeth. Roedd helpu i gydlynu'r ochr gerddorol a hyrwyddo'r gwaith drwy Circl8 Radio yn teimlo'n union fel y peth iawn i'w wneud."

Gallwch brynu'r albwn digidol yma, a bydd yr holl arian a godir yn mynd tuag at helpu gwaith dad-ddofi pwysig a chyffrous Tir Natur:

circl8radio.bandcamp.com/album/i-am-nature-ep



# Chester Musicians and North Wales Poets Raising Money for Nature by Pat Sumner

During the spring, a collaboration took place between a group of North Wales poets and Chester musicians, in the hope that they could raise some money for nature.
The poets are Leaf Pettit, Diana Sanders, Andrew Sumner and Patricia Sumner, who all live near Ruthin. They recorded poems from their '*I Am Nature: Environmental Poetry'* collection published by Veneficia Publications. The musicians are Shemboid and Vince Cory of Chester.

In a cross-disciplinary collaboration, first aired by Dan Schott on Circl8 Radio, they recorded four poems with soundtracks, which are available to download here: circl8radio.bandcamp.com/album/i-am-nature-ep

All the poets were thrilled with the musicians' interpretation of their work; the sensitive soundscapes have added a new and fresh dimension to the poems.

Poet and sound artist Diana Sanders combined the music and words to create the final digital album. She said, "We were delighted with the soundtracks that were created. Each poem is unique and complete in itself, but combined with the music by Shemboid and Vince Cory, they become more of a chorus – more community than individual, less 'I' and more 'us'."

The creative team hopes their small collaboration of environmental art will help to raise money for Tir Natur, a charity that has secured a 1,195-acre site in Cwm Doethïe in the Cambrian Mountains to establish Wales's largest rewilding site. Tir Natur's vision is to see "a Wales where communities and wild nature thrive together, where ecosystems are fully restored and people rediscover their place within them". They want to see "areas where nature is in charge, able to determine its own course".

The poets felt that their collection of eco poetry was very much in tune with Tir Natur's vision and goals, so it seemed the perfect charity to support through their words and music.

The recently released digital album includes:

'Weeds' by Leaf Pettit with music by Shemboid
'Shaman' by Andrew Sumner with music by Shemboid
'Dark Angels' by Diana Sanders with music by Vince Cory
'September Evening, Dyffryn Clwyd' by Patricia Sumner with music by Shemboid

Digital creator and guitarist Vince Cory said, "I'm chuffed to bits to be involved in an important project like this and hopefully we can raise a few quid for a great cause. For my bit on 'Dark Angels', it was the lyrics and Diana's vibe that inspired where it went – obviously a great wordsmith with a good heart. Listen and see, it speaks volumes."

Shemboid, a musician who creates immersive sonic and visual experiences, commented, "It's a pleasure to be involved in this project. Environmental matters are important to me, and helping out with this work means a lot, not only to myself, but the wider world. These poems are powerful, important and relevant to all our lives today. Creating soundscapes to go along with these readings was an enjoyable challenge that felt satisfying for me as a contributor to this great work. Let the rewilding grow!"

Dan Schott of Circl8Radio in Chester added, "Working with Shemboid on the music for *'I Am Nature'* was a real privilege. North Wales poets, Chester musicians, proceeds going directly to Tir Natur's rewilding project in Wales... it all meant something. Helping coordinate the music side and getting it out through Circl8 Radio felt like exactly the right thing to do."

You can buy the digital album here, and all funds raised will go to help Tir Natur's important and exciting rewilding work: circl8radio.bandcamp.com/album/i-am-nature-ep



## Youth Volunteer Group by David Denning

Friends of the Earth Ruthin is looking to set up a Youth Volunteer Group. The focus is 18-25 years, especially those who have finished school and training. FoE has members who can contribute more or less depending on the interests of the young people who join. We hope to gather a small group (5-10 young people) who can contribute to Friends of the Earth's current activities and perhaps later take on additional outdoor activities.

BUT we first need 1 or 2 leaders who could drive the formation of the group, its meeting frequency, arrange the sequence of activities and act as the point of contact. The likely activities will include species recording/surveys, tree planting, balsam bashing, river water testing (insurance cover permitting), public engagement activities including advocacy work, and contributing to managing newly established areas of biodiversity in Ruthin Town. We hope to develop young peoples' voices to augment FoE's mission.

Please get in touch with Friends of the Earth Ruthin foe.ruthin@gmail.com or phone/WhatsApp Secretary Jean on 0741 998 0286 if you would like to contribute, even if you cannot commit to leading the group.




Dry, hot July in the Vale with beautiful golden hues of late summer. No rain for over a month. Almost no forage for animals and newly planted hedges and trees in drought conditions.

## Grŵp Gwirfoddolwyr Ifanc gan David Denning

Mae Cyfeillion y Ddaear Rhuthun yn gobeithio sefydlu Grŵp o Wirfoddolwyr Ifanc 18-25 oed, yn enwedig pobl ifanc sydd wedi gorffen yn yr ysgol neu orffen hyfforddiant. Mae gan Gyfeillion y Ddaear aelodau sy'n gallu cyfrannu, gan ddibynnu ar ddiddordebau'r bobl ifanc sy'n ymuno. Rydym yn gobeithio dod â grŵp bach o 5 - 10 o wirfoddolwyr ifanc at ei gilydd i gyfrannu at weithgareddau presennol Cyfeillion y Ddaear, ac efallai yn nes ymlaen ymgymryd â gweithgareddau awyr agored ychwanegol.

OND yn gyntaf, mae angen un neu ddau o arweinwyr a fyddai'n gallu bwrw ymlaen â'r gwaith o gael y grŵp at ei gilydd, a gwneud penderfyniad o ran pa mor aml y bydd yn cwrdd, gan drefnu cyfres o weithgareddau a gweithredu fel pwynt cyswllt. Bydd y gweithgareddau tebygol yn cynnwys cofnodi/cynnal arolygon o rywogaethau, plannu coed, bwrw balsam, profi dŵr afonydd (os bydd yr yswiriant yn caniatáu hynny), gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd, gan gynnwys gwaith eirioli a helpu i reoli ardaloedd bioamrywiaeth newydd yn nhref Rhuthun. Rydym yn gobeithio datblygu'r cyfle i glywed lleisiau pobl ifanc, gan ategu cenhadaeth Cyfeillion y Ddaear.

Cysylltwch â Chyfeillion y Ddaear Rhuthun drwy e-bostio: foe.ruthin@gmail.com neu ffonio /WhatsApp Jean ar 0741 998 0286 os hoffech helpu, hyd yn oed os na allwch ymrwymo i arwain y grŵp.



## Cipolwg Sydyn gan Phil Bennett-Lloyd, Clwb Beicio Rhuthun

Dw i ddim yn berson sy'n codi gyda'r wawr fel arfer, ond dw i bob amser yn mwynhau gweld a chlywed y pethau llai cyfarwydd pan fydda' i'n gwneud hynny. Oherwydd y gwres difrifol di-baid, mae nifer o'r teithiau ar fy meic gyda Chlwb Beicio Rhuthun wedi digwydd yn gynharach yn y dydd, er mwyn osgoi cael ein crasu, ac ar un o'r teithiau hyn fe wnaethon ni weld teulu o ddyfrgwn, gan gynnwys rhai ifanc, yn diflannu i'r gwrych ger Afon Clwyd. Yn ogystal â bod yn arwydd o obaith bod ansawdd y dŵr, nifer y pysgod, a chynefinoedd ar lan yr afon yn gwella, rhaid hefyd ychwanegu gair o rybudd.

Mae'r dyfrgi Ewrasiaidd yn parhau i fod ar restr goch IUCN o'r rhywogaethau sydd mewn perygl, wedi ei gategoreiddio fel 'dan beth bygythiad', gyda'r boblogaeth at ei gilydd yn dangos cynnydd ar draws y DU, ar lannau afonydd ac ar yr arfordir. Roedd y gostyniad trychinebus yn y niferoedd rhwng y 1950au a'r 1980au wedi digwydd gan mwyaf oherwydd llygredd amaethyddol o blaladdwyr sydd bellach wedi'u gwahardd – organochlorides a polychlorinated biphenyls (PCBs) – yn ogystal â chael eu herlid a cholli cynefinoedd. Ar hyn o bryd, y perygl mwyaf i ddyfrgwn yn y DU, gan gynnwys yng Nghymru, yw cael eu lladd ar y ffordd. Mae'r ffyrdd yn brysurach, mae'r traffig yn symud yn gynt, ac mae diffyg ystyriaeth i seilwaith addas wrth ddatblygu ffyrdd a rheoli cynlluniau megis ar gyfer tanffyrdd, sarnau, neu cwlfertau sych. Yn ogystal â dilyn cwrs dŵr bydd dyfrgwn hefyd yn dilyn llwybrau sych, yn aml ar draws ardal fawr. Nid yw dyfrgwn bach yn gallu nofio i ddechrau a rhaid iddynt ddysgu sut i wneud!

Cafodd Prosiect Dyfrgwn Prifysgol Caerdydd ei sefydlu ym 1992, (https://www.cardiff.ac.uk/otter-project), ac mae'n brosiect tymor hir sy'n monitro marwolaethau yng Nghymru, yr Alban, a Lloegr, gan ddangos yn gyson mai marwolaethau ar y ffyrdd yw'r ffactor mwyaf sy'n effeithio ar boblogaethau. O ganlyniad, maen nhw wedi cynhyrchu canllawiau a rhoi cyngor i Awdurdodau Priffyrdd.

Fodd bynnag, mae astudiaethau diweddar yn dangos bod croniad cynyddol o gemegau PFAS, sy'n para am byth, yn digwydd mewn dyfrgwn, yn ogystal â'r pryder bod y bygythiad o PCBs, sydd wedi eu gwahardd ers amser hir, ond sy'n dal mewn gwaddodion ar lannau afonydd a'r arfordir, yn dechrau codi ei ben unwaith yn rhagor yn ystod stormydd a llifogydd sy'n cael eu gwaethygu gan newid hinsawdd. Hefyd mae peryglon cynyddol o lygredd PFAS o safleoedd

diwydiannol, milwrol, a masnachol a hefyd o ryddhau carthion a slwtsh carthion halogedig, sy'n cael ei ledaenu ar dir ffermydd. Fel prif ysglyfaethwr, mae'r dyfrgi yn parhau i fod mewn perygl y bydd y cemegau hyn yn cronni ynddynt. Wedyn, i ychwanegu at y perygl hwnnw, mae lefelau cynyddol cynhyrchion fferyllol (amaethyddol, anifeiliaid anwes, a phobl) yn dod i mewn i gyrsiau dŵr, o oestrogen a thawelyddion i wrthfiotigau a chyffuriau gwrth-ganser, ac felly mae rhywogaethau megis y dyfrgi yn parhau i wynebu nifer mawr o fygythiadau.

Ond rhaid dweud serch hynny cymaint yr oedd ein calonnau wedi eu codi o weld teulu o'r anifeiliaid hardd hyn, a'r gobaith bod eu presenoldeb hefyd yn dod â llawenydd i eraill, gan ychwanegu at fywyd ein hafonydd gwerthfawr.



## A Fleeting Glimpse by Phil Bennett-Lloyd, Ruthin Cycling Club

I'm not usually an early bird but always enjoy the less familiar sights and sounds whilst "doing a dawnie!" With the intense and prolonged summer heat, several cycle rides with Ruthin Cycle Club moved earlier, to avoid the effects of chain-driven baking and it was on one of these rides that we were witness to the wonderful sight of a family of otters and cubs disappearing into a hedgerow near to the Afon Clwyd. As well as this being a great sign of improving water quality, fish stocks and bankside habitats it also comes with a note of caution.

The Eurasian Otter remains on the IUCN Red list for endangered species, classified as "near threatened," with the population showing overall increases across the UK, both riparian and coastal. Its calamitous decline from the 1950s to the 1980s was largely due to agricultural pollution from pesticides now banned – organochlorides and polychlorinated biphenyls (PCBs) – as well as persecution and loss of habitat. Currently, the greatest risk to otters in the UK, including Wales, is from road deaths. Busier roads, faster traffic and lack of consideration of suitable infrastructure in road development or management schemes, such as underpasses, ledges or dry culverts. Otters don't only follow watercourses but also take dry routes over often a very large territory. Young otter cubs are not natural swimmers and have to learn how to do it!

Established in 1992, the Cardiff University Otter Project (https://www.cardiff.ac.uk/otter-project) is a long-term project monitoring mortalities in Wales, Scotland and England and consistently shows road mortalities as the greatest factor affecting populations and have produced guidance and advice to Highway Authorities.

However, recent studies are showing increasing accumulations in otters of PFAS "forever" chemicals and, equally worryingly, the long-banned PCBs, held within riparian and coastal sediments and being remobilized during storm and high flow events, exacerbated by climate change. Risks are also growing from PFAS pollution from industrial, military and commercial sites and sewage discharges and contaminated sewage sludge, spread on farms. As a top predator, the otter remains at risk from accumulating these chemicals in their tissues. Then add to this risk, the increasing levels of pharmaceuticals (agricultural, domestic pets and

human) entering watercourses, from oestrogen and sedatives to antibiotics and anti-cancer drugs, and species such as the otter continue to face a phalanx of threats.

But it still was an absolute joy to see a family of these beautiful animals and the hope that their presence brings joy to others and adds to our precious catchments.

## Lab Dwr Clwyd - River Water Quality Project Update by Brian Peters

The Rivers Team have completed 18 months of regular monthly water testing on the Afon Clwyd and three tributaries – Clywedog, Ystrad and Dwr Ial.

Phosphate readings continue to indicate high nutrient levels and poor water quality on the Clwyd and Dwr Ial. In March we introduced a special meter to monitor nitrate levels which are another good indicator of river pollution. The team are very concerned that results are consistently showing high levels of nitrate which indicate poor ecological river status. More test results are required to establish annual mean values to give our results credibility and we are progressing our concerns with Natural Resources Wales and the North Wales Rivers Trust.




When the team are river testing, they also look out for other issues e.g., water discolouration, algae, debris, fallen trees etc. The following two incidents have been reported to NRW for investigation and action

- In March a major bank collapse/ erosion occurred on the Clwyd near Pont Telpyn bridge which was caused by very heavy rainfall diverting the river around a large fallen tree. The damage had also affected the public footpath. The good news is the local farmer/ landowner carried out

remedial work in the summer to restore the bank.
In July a pollution incident was observed in the same area near the Clwyd Pont Telpyn bridge. The river level was very low and a large area of stagnant water with white sludge on the surface covered the full width of the river. We also noted that cattle had entered the river.

In May we held an Invertebrate Identification training day on the Afon Clwyd when Poppy Backshall and Jack Johnson from the North Wales Rivers Trust trained six members of the rivers team on how to sample a river bed and identify the invertebrates present. The quantity and type of invertebrates is a good indicator of a rivers health and our results recorded five types of invertebrates including mayflies, stoneflies and water shrimps. The quantities were rated as low abundance levels and we observed large quantities of algal vegetation in our samples. This is a destructive test so we will limit our sample days to spring and autumn at one location to get a snapshot of the river's health.




The North Wales Rivers Trust continue to provide support with free testing kit and technical information. Jack Johnson has been given a new role as NWRT project officer for the Clwyd and Conwy catchment areas and will now be our main contact. They are progressing a funding application for the Clwyd catchment area to cover projects over an 18-month period. The Lab Dwr Clwyd team provided inputs to support the application which included our views on what needs to be implemented to improve the health of our local rivers over the next 10 to 20 years.
The results and observations from over 120 samples have been recorded in the NWRT database and also into our new Lab Dwr Clwyd excel spreadsheet.
The Clwyd Forum met in March and we presented the results for 2025 - our first full year. The next Forum is scheduled for September and we plan to give an update.
The Great UK Waterblitz took place in April and we tested the Afon Clwyd and entered the results into their extensive UK database. This is the largest citizen

science project in the UK with over 4.000 members of the public taking part and we will be supporting the next event in September.
We now have twelve team members who regularly support our monthly river testing days and bring a wide range of skills, knowledge and humour to our river sessions. The initial project objective has been achieved which was to establish a team of volunteers and regularly test/benchmark the quality of our local rivers. We are now developing our communication plans to report our findings to the local communities including farmers and landowners.
New volunteers are always welcome and you can make contact through the Ruthin Friends of the Earth website www.ruthinfoe.org

## Lab Dŵr Clwyd – Diweddariad Ar y Prosiect Ansawdd Dŵr Afonydd gan Brian Peters

Mae'r Tîm Afonydd wedi cwblhau 18 mis o brofion dŵr misol rheolaidd ar Afon Clwyd a thair afon llai sy'n ymuno â hi – Clywedog, Ystrad a Dŵr Iâl.
Mae darlleniadau ffosffad yn parhau i ddangos bod lefelau uchel o faethynnau ac ansawdd dŵr gwael yn y Clwyd a Dŵr Iâl. Ym mis Mawrth, fe wnaethom gyflwyno meter arbennig i fonitro lefelau nitradau, sef ffordd effeithiol arall o ddangos bod llygredd mewn afon. Mae'n destun pryder mawr i'r tîm bod y canlyniadau'n dangos lefelau uchel cyson o nitradau sy'n arwydd o statws ecolegol gwael yr afon. Mae angen cael canlyniadau rhagor o brofion er mwyn sefydlu gwerthoedd llinell sylfaen i roi hygrededd i'n canlyniadau, ac rydym yn trafod ein pryderon gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ac Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru.
Pan fydd y tîm yn cynnal profion ar yr afon, byddan nhw hefyd cadw golwg am broblemau eraill e.e. lliw annymunol ar y dŵr, algae, gwastraff neu falurion, coed sydd wedi cwympo ac ati. Mae'r ddau ddigwyddiad canlynol wedi eu hadrodd i Gyfoeth Naturiol Cymru i ymchwilio iddynt a gweithredu.
- Ym mis Mawrth digwyddodd cwymp/erydu mawr ar un o lannau'r Clwyd ger Pont Telpyn, a gafodd ei achosi gan fod glaw trwm iawn wedi newid cyfeiriad yr afon o gwmpas coeden fawr a oedd wedi cwympo. Mae'r difrod hefyd wedi effeithio ar y llwybr cyhoeddus. Y newyddion da yw bod y ffermwr/perchennog y tir wedi gwneud gwaith adfer yn ystod yr haf i drwsio glan yr afon.
Ym mis Gorffennaf gwelwyd achos o lygredd yn yr un ardal ger Bont Telpyn ar y Clwyd. Roedd lefel yr afon yn isel iawn, ac roedd ardal fawr o ddŵr llonydd

gyda slwtsh gwyn ar yr wyneb yn gorwedd reit ar draws yr afon. Fe wnaethom hefyd nodi bod gwartheg wedi mynd i mewn i'r afon.

Ym mis Mai, cafodd diwrnod o hyfforddiant mewn adnabod Infertebratau ar Afon Clwyd ei gynnal o dan ofal Poppy Backshall a Jack Johnson o Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru. Roedd yr hyfforddiant yn edrych ar sut i samplo gwely afon a nodi'n infertebratau sy'n bresennol. Mae niferoedd a mathau'r infertebratau yn ffordd dda o ddangos iechyd afon, ac fe wnaeth ein canlyniadau gofnodi pum math ohonynt, gan gynnwys gwybed Mai,pryfed y cerrig, a berdys dŵr croyw (*water shrimps*). Cafodd y niferoedd a nodwyd eu categoreiddio fel lefelau isel, a gwelwyd lot fawr o dyfiant algae yn ein samplau. Mae hwn yn brawf niweidiol felly byddwn yn cyfyngu ein diwrnodau samplo i'r gwanwyn a'r hydref mewn un lleoliad er mwyn cael darlun o iechyd yr afon.

Mae Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru yn parhau i roi cymorth drwy ddarparu pecyn profion am ddim a gwybodaeth dechnegol. Mae Jack Johnson wedi cael rôl newydd fel swyddog prosiectau Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru ar gyfer ardaloedd dalgylchoedd Clwyd a Chonwy, a fo fydd ein prif berson cyswllt o hyn ymlaen. Maen nhw'n bwrw ymlaen â chais am gyllid i ardal dalgylch Clwyd ar gyfer prosiectau dros gyfnod o 18 mis. Mae tîm Lab Dŵr Clwyd wedi cyfrannu at y cais sy'n cynnwys ein sylwadau ar yr hyn y mae angen ei wneud i wella iechyd ein hafonydd lleol yn ystod y 10 - 20 mlynedd nesaf.


Mae'r canlyniadau a'r nodiadau o'r hyn a welwyd o dros 120 o samplau wedi cael eu cofnodi yng nghronfa ddata'r Ymddiriedolaeth, a hefyd ar ein taenlen excel Lab Dŵr Clwyd newydd.

Cyfarfu Fforwm Clwyd ym mis Mawrth, ac fe wnaethom gyflwyno'r canlyniadau ar gyfer 2025 – ein blwyddyn lawn gyntaf. Bwriedir cynnal y Fforwm nesaf ym mis Medi, pan fyddwn ni'r rhoi diweddariad.

Cynhaliwyd y *Great UK Waterblitz* ym mis Ebrill, ac fe wnaethom gynnal profion ar Afon Clwyd a chofnodi'r canlyniadau ar eu cronfa ddata helaeth ar gyfer y DU gyfan. Dyma'r prosiect gwyddoniaeth dinasyddion mwyaf yn y DU, gyda thros 4,000 o aelodau'r cyhoedd yn cymryd rhan, a byddwn yn cefnogi'r digwyddiad nesaf ym mis Medi.

Erbyn hyn mae gennym 12 aelod o'n tîm sy'n cefnogi ein diwrnodau profi misol yn rheolaidd, gan ddod ag amrywiaeth eang o sgiliau, gwybodaeth, a hiwmor. Mae nod cychwynnol y prosiect bellach wedi ei gyflawni, sef sefydlu tîm o wirfoddolwyr a phrofi/meincnodi ansawdd ein hafonydd lleol yn rheolaidd. Rydym nawr yn datblygu ein cynlluniau cyfathrebu ar gyfer adrodd ar ein casgliadau i'r cymunedau lleol, gan gynnwys ffermwyr a pherchnogion tir.

Mae croeso bob amser i wirfoddolwyr newydd, a gallwch gysylltu trwy wefan Cyfeillion y Ddaear Rhuthun: www.ruthinfoe.org



## Prynu'n Gynaliadwy gan Diana Sanders

Yn ystod y chwyldro diwydiannol, fe wnaeth yr awydd i brynu dyfu'n gyflym mewn gwledydd cyfoethog. Masnach drefedigaethol oedd wrth wraidd ymorodraethau Ewropeaidd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ungeinfed ganrif; siwgwr o Ynysoedd y Caribï, te o India, cocoa o Orllewin Affrica, coffi o Jafa, cotwm o'r Aifft. Ym mhob un o'r enghreifftiau hyn, cafodd materoliaeth a chyfoeth eu blaenoriaethu dros foeseg bob tro. Cafodd gweithwyr eu cam-drin, a phrin oedd eu hawliau (os oedd ganddynt unrhyw hawliau o gwbl). Yn sicr nid oedd ganddynt dim rhyddid. Ar yr ochr arall, nid oedd y bobl a oedd yn prynu ac yn defnyddio'r cynhyrchion bob amser yn ymwybodol o'r creulondeb y tu ôl iddynt. Erbyn diwedd yr 1800au, roedd pobl yn cymryd argaeledd yr eitemau hyn yn ganiataol, ac nid oedd llawer ohonynt yn cwestiynu moeseg y pethau a oedd wedi dod yn gyffredin yn eu bywydau.

Mae ein cymdeithas fodern wedi ei hadeiladu ar sail hyn, ac mae prynu a defnyddio mewn modd di-hid yn dal i fod yn ganolog iddi. Mae'n *normal* dymuno cael soffa newydd, gwyliau ar ochr arall y byd, cegin newydd, y ffasiwn diweddaraf. Mae cyfalafiaeth fodern fyd-eang wedi elwa llawer ar rwydweithiau masnach ymerodrol y gorffennol. Er bod y llwybrau a ddefnyddiwyd i gludo siwgwr bellach yn cael eu defnyddio i gludo ffonau clyfar a ffasiwn, parhau y mae daearyddiaeth isorweddol o anghydraddoldeb. Mae'r prynwr yn yr unfed ganrif ar hugain yn dal i ddibynnu ar lafur pobl sy'n bell i ffwrdd: ffermwyr coffi, gweithwyr sy'n gwneud dillad, pobl sy'n gosod cydrannau electronig. Mae hysbysebion yn dal i ddathlu cysylltiadau byd-eang, ond ar yr un pryd cuddio anghydraddoldeb byd-eang. Sut mae'r anifeiliaid y mae pobl yn eu bwyta yn cael eu trin? (A fyddech chi'n bwyta anifail yr oeddech wedi ei wylio'n cael ei gludo ac wedyn ei ladd mewn lladd-dy?) Beth yw canlyniadau dymuniad pobl i fwyta pysgod? (Beth yw eich barn am fwyta pysgodyn pan gafodd nifer di-rif o rywogaethau'r môr eraill eu lladd yn y broses o'i ddal).

Er y gallai eiddo materol greu mwynhad dros dro, mae ymchwil yn dangos bod y mwynhad yn pylu'n gyflym, gan arwain at gylch o eisiau mwy o hyd ac o hyd. Gelwir hyn yr *hedonic treadmill*. Nid yw eiddo a phethau'n dod â'r boddhad yr ydym yn chwilio amdano, ac mae hynny'n creu canlyniadau hynod niweidiol i'n planed. Mae'r diwydiant ffasiwn er enghraifft, yn gyfrifol am gynhyrchu 10% o'r

allyriadau carbon byd-eang, yn ogystal â llygredd cemegol, defnydd anferth o ddŵr, a microblastig sy'n cael ei ryddhau yn yr amgylchedd. Mae un cilogram o gig eidion yn cynhyrchu 100kg, caws 25kg, a chnau 0.5kg o CO2 cyfwerth o nwyon tŷ gwydr. Os ydych chi'n hoff o afocados, cofiwch fod angen 320 litr o ddŵr ar bob un, a bod mewnforion blynyddol afocados i'r DU yn cynnwys dros 25 miliwn o fetrau ciwbig o ddŵr rhithwir. Mae hynny'n cael effaith ddifrifol yn y cymunedau lle maent yn cael eu tyfu.

Nid yw prynwriaeth yn fater i'r unigolyn yn unig. Mae'n gallu erydu cydlyniant cymdeithasol, amlygu anghydraddoldebau cymdeithasol, gan greu bwlch mawr rhwng y rheini sy'n gallu fforddio gwario a'r rheini nad ydynt yn gallu fforddio gwario.

Beth fyddai'n digwydd pe baem yn gweld trwy'r hysbysebion swnllyd a'r norm cymdeithasol, gan edrych yn hytrach ar y dioddef a achoswyd gan yr hyn yr ydym wedi ei brynu? Beth pe baem yn edrych ar y byd o'n cwmpas a meddwl am sut y gallwn ei wneud yn iachach yn hytrach na'i gam-drin? Yn lle hedfan, beth pe baem yn treulio wythnos yn edrych ar ein rhan ni o'r byd rhyfeddol hwn?

Dw i wedi bod yn gofyn i mi fy hun a oes angen y peth hwn arnaf mewn gwirionedd? Mae gwir angen yn rhywbeth penodol iawn – mae hynny'n ddigon amlwg. Ydw i eisiau achosi i rywun arall ddioddef? Wrth gwrs dw i ddim. Rhaid imi gamu yn ôl o feddwl mewn ffordd ddiog, ac yn hytrach dysgu am y ffeithiau, a meithrin ymwybyddiaeth. Pan fydd yn angenrheidiol prynu eitem, gall prynu oddi wrth Fasnach Deg, canfod ffononellau cynaliadwy, prynu'n lleol, a nwyddau sy'n rhydd o greulondeb amlygu ymwybyddiaeth wrth brynu.

Mae yna harddwch mewn cadw pethau'n syml, iachad mewn dod o hyd i ffordd o fyw sy'n holistaidd, tosturiol, a moesegol. Mae angen inni symud i ffwrdd oddi wrth ein ffordd drefedigaethol o feddwl, yr ydym yn anffodus wedi ei hetifeddu, a chanfod ffordd anhunanol newydd a fydd yn gallu iachau'r creaduriaid sy'n byw ar ein planed brydferth a hefyd ni ein hunain.

## Sustainable Consumerism by Diana Sanders

In the industrial revolution, consumerism in wealthy nations sky rocketed. European empires of the nineteenth and twentieth centuries had colonial trade at its beating heart; sugar from the Caribbean, tea from India, Cocoa from West Africa, coffee from Java, cotton from Egypt. In all of these examples, materialism and wealth trumped ethics at every turn. Workers were abused, given few, if any rights, and had no freedom. On the other side of the coin the people who consumed these products were quite often unaware of the brutality behind their production. By the late 1800's these items were taken for granted and not many people questioned the ethics of the things that had become habitual in their lives.

Our Modern society lies on the back of this and still revolves around unthinking consumerism. It is *normal* to want a new sofa, a holiday on the other side of the world, a new kitchen, the latest fashion. Modern global capitalism owes much to the imperial trade networks of the past. The routes that once carried sugar and tea now transport smartphones and fashion, but the underlying geography of inequality remains. The twenty-first-century consumer still depends on distant labour: coffee farmers, garment workers, electronics assemblers. Advertising still celebrates global connection while hiding global disparity. How are the animals that people eat treated? (Would you eat an animal you had seen transported and then killed in abattoir). What is the result of peoples' desire to eat fish? (What do you think about eating a fish that had been caught using bycatch that kills countless other marine species).

Research has shown that material possessions may provide temporary enjoyment but this quickly fades and leads to a cycle of wanting more. This is known as the *hedonic treadmill*. The need for things doesn't bring the satisfaction we're searching for and creates catastrophic consequences for our planet. The fashion industry, for example, is responsible for 10% of worldwide carbon emissions as well as chemical pollution, massive water use and microplastic release. A single kilogram of beef produces 100kg, cheese 25kg and nuts 0.5kg of $CO_2$ equivalent greenhouse gasses. If you love avocados bear in mind that each one requires 320 litres of water and the UK's annual imports

of avocados contain over 25 million cubic metres of virtual water. This has a serious impact in the communities where they are grown.

Consumerism is not just an individual issue. It can erode social cohesion, highlight social inequality, creating a huge divide between those who can afford to spend and those who can't.

What if we saw through the glitzy advertising and the societal norm and looked at the suffering our latest purchase had caused? What if we looked at the world around us and thought about healing it rather than abusing it? What if instead of taking a flight we spent a week looking locally at this fantastic world we live in.

I've been asking myself do I need a product or do I want it? The two are obviously very different. Do I want to be the cause of someone else's suffering? Of course not. I need to step out of lazy thinking and be informed, aware. When it is necessary to purchase items, ethical consumption such as Fair Trade, sustainable sourcing, local purchasing and cruelty-free products bring consciousness to purchases.

There is beauty in simplicity, healing in finding ways that are holistic, compassionate and ethical. There is a need to move away from the colonial thinking that is our unfortunate heritage and find a new, unselfish way that will heal us and the creatures that live on our beautiful planet.



## Climate and Nature Emergency Film Screenings in Ruthin and Denbigh by Christine Meirion, Sue Lewis and Susanna Clayton

More than 150 people gathered at Ruthin and Denbigh in mid-June for two local screenings of *The People's Emergency Briefing*, followed by public discussions about what the issues raised in the film may mean locally. The organisers were Friends of the Earth, Ruthin, and Y Ty Gwyrdd, Denbigh.

The screenings formed part of a wider UK programme of events designed to help communities engage with the climate and nature crisis, and supported by naturalist Chris Packham, who has said:" I'd encourage people everywhere to attend a screening of The People's Emergency Briefing. This new film creates exactly the kind of honest local conversation we now urgently need, both about the threat from climate and nature breakdown, but also about what we can do, together with our politicians, to build a better future."

Discussion afterwards focused on a wide range of topics, including farming pressures, local biodiversity, cost of living pressures, food resilience and the need for social justice alongside climate justice. Participants also explored how local communities can continue the conversation and engage elected representatives.

The event organisers said:

"One of the strongest feelings in the room was relief — that issues many people have quietly worried about for a long time were finally being spoken about openly, clearly and together."

Many people emphasised the importance of working together to build community resilience and that this would give people hope and encouragement to get together and act on their climate and nature concerns.

There was strong interest in continued local engagement, including discussion of how community support might be built. People at both screenings supported a call to our MPs Gill German and Becky Gittins – neither of whom were able to attend - to back the Parliamentary Call for a televised emergency briefing on the climate and nature crisis.

The involvement of our Members of the Senedd and local councillors is also vital in working together with their constituents. We were delighted that in Denbigh, Member of the Senedd Becca Martin, County Councillors Delyth Jones and Pauline Edwards, and Town Councillor Ruth Griffiths were able to attend. The

Ruthin screening was attended by County Councillors Emrys Wynne and Bobby Feeley.

There was a follow-up meeting in Ruthin on Tuesday 23rd June at 7pm at the Denbighshire Voluntary Services Council when Nick Ward and Sam Ward facilitated a discussion on next steps with several individuals committing to hosting a screening in their local communities.

Importantly, Denbighshire County Council hosted two additional screenings on 30th July, both facilitated by DCC's Climate Change team and representatives from Ruthin Friends of the Earth and Sam Ward. The first in the afternoon was invitation only for county councillors, senior staff, Members of the Senedd and Members of Parliament for the region. The evening screening was open to the public and Denbighshire Town councillors and held in The Assembly Room Ruthin.




**Ffilm ar yr Hinsawdd a'r Argyfwng Natur yn cael ei ddangos yn Rhuthun** gan Christine Meirion, Sue Lewis a Susanna Clayton

Daeth dros 150 o bobl ynghyd yn Rhuthun a Dinbych ganol Mehefin ar gyfer dau ddangosiad lleol o *The People's Emergency Briefing*, a gafodd eu dilyn gan drafodaethau cyhoeddus ynghylch yr hyn y gallai'r materion a godir yn y ffilm ei olygu yn lleol. Cyfeillion y Ddaear oedd y trefnwyr yn Rhuthun a'r Tŷ Gwyrdd yn Ninbych.

Roedd y dangosiadau'n rhan o raglen ehangach o ddigwyddiadau ar draws y DU sydd â'r nod o helpu cymunedau i gymryd rhan yn yr ymgyrchoedd sy'n gysylltiedig â'r argyfwng hinsawdd a natur. Mae'r rhaglen yn cael ei chefnogi gan y naturiaethwr Chris Packham, a ddywedodd:" Rwy'n annog pobl ym mhobman i fynd i weld *The People's Emergency Briefing*. Mae'r ffilm newydd hon yn creu'r union fath o sgwrs onest leol y mae angen inni ei chael ar frys i drafod y bygythiad a ddaw o'r argyfwng hinsawdd a natur, a hefyd yr hyn y gallwn ni ei wneud, gyda'n gilydd, ni a'r gwleidyddion, i adeiladu dyfodol gwell."

Roedd y trafodaethau wedyn yn canolbwyntio ar amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys pwysau ar amaethyddiaeth, bioamrywiaeth leol, pwysau costau byw, gwydnwch bwyd, a'r angen i sicrhau cyfiawnder cymdeithasol ochr yn ochr â chyfiawnder hinsawdd. Bu'r cyfranogwyr hefyd yn trafod sut y gall cymunedau lleol barhau â'r sgwrs ac ennyn diddordeb ymysg cynrychiolwyr etholedig.

Dywedodd trefnwyr y digwyddiad:

"Un o'r teimladau cryfaf yn yr ystafell oedd rhyddhad — bod problemau y mae pobl wedi bod yn poeni amdanynt yn dawel ers amser yn cael eu trafod yn agored wrth i bobl ddod at ei gilydd."

Roedd llawer o bobl yn pwysleisio pwysigrwydd gweithio gyda'n gilydd i adeiladu gwydnwch cymunedol, ac y byddai hynny'r rhoi gobaith ac annogaeth i bobl, gan eu tynnu ynghyd i weithredu mewn ymateb i'w pryderon.

Roedd didddordeb mawr mewn parhau i gyfranogi ar lefel leol, gan gynnwys trafod sut y gellir adeiladu cefnogaeth yn y gymuned. Roedd pobl yn y ddau ddangosiad yn cefnogi'r syniad o alw ar ein haelodau seneddol Gill German a Becky Gittins – er nad oedd yr un ohonynt yn gallu bod yn bresennol – i gefnogi'r Galwad Seneddol am ddangos y ffilm briffio ar yr argyfwng hinsadd a natur ar y teledu.

Mae cyfranogiad Aelodau o'r Senedd a'n cynghorwyr lleol hefyd yn hanfodol drwy eu bod yn gweithio gyda'u hetholwyr. Roeddwn yn falch bod AS Becca Martin, y Cynghorwyr Sir, Delyth Jones a Pauline Edwards, a'r Cynghorydd Tref, Ruth Griffiths, wedi gallu mynychu dangosiad y ffilm yn Ninbych. Roedd y Cynghorwyr Sir, Emrys Wynne a Bobby Feeley, yn bresennol yn y dangosiad yn Rhuthun.

Cynhaliwyd cyfarfod dilynol yn Rhuthun ddydd Mawrth 23 Mehefin am 7pm yng Nghyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, lle bu Nick Ward a Sam Ward

yn hwyluso trafodaeth ar y camau nesaf, gyda nifer o unigolion yn ymrwymo i drefnu dangosiad o'r ffilm yn eu cymunedau lleol.

Yn bwysig, cynhaliodd Cyngor Sir Ddinbych ddau ddangosiad ychwanegol ar 30 Gorffennaf, y ddau wedi eu hwyluso gan dîm Newid Hinsawdd y Cyngor , cynrychiolwyr o Gyfeillion y Ddaear Rhuthun, a Sam Ward. Roedd y cyntaf yn y prynhawn yn ddangosiad drwy wahoddiad yn unig i gynghorwyr sir, uwch-staff, Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol ar gyfer y rhanbarth. Roedd y dangosiad gyda'r nos yn agored i'r cyhoedd a Chynghorwyr Tref Sir Ddinbych, a chafodd y dangosiad hwnnw ei gynnal yn yr Ystafell Asembli yn Rhuthun.



**Projects and Contacts**

| | |
|---|---|
| Group Secretary | Jean Leith |
| FoE Co-Chairs | David Denning & Richard Barrie |
| Treasurer | Pete Regan |
| Website | Steve Hoyle(FoE) and John Miller (RC) |
| Litter Picks | Steven Hoyle |
| Repair Café | Anne Lewis |
| Resilient Communities | Graham Steel/ Christine Meirion |
| Newsletter | Diana Sanders |
| Translation | Sian Gwyn-Ifan |
| River Quality Monitoring | Brian Peters and Chris Jowett |

**Prosiectau ac Enwau cyswllt**

| | |
|---|---|
| Ysgrifennydd y Grwp | Jean Leith |
| Cadeirydd Cyfeillion y Ddaear | David Denning & Richard Barrie |
| Trysorydd | Pete Regan |
| Casglu Sbwriel | Steven Hoyle |
| Caffi Trwsio | Anne Lewis |
| Cymunedau Cadarn | Graham Steel/ Christine Meirion |
| Cylchlythyr | Diana Sanders |
| Cyfieithu | Sian Gwyn-Ifan |

**Groups FoE Ruthin work alongside/ Grwpiau sy'n gweithio ochr yn ochr a Chyfeillion y Ddaear**

| | |
|---|---|
| Drosi Bikes | Beth Ward/Robin Hughes |
| Y Ty Gwyrdd | Marguerite Lovegrove |
| Resource Young Volunteers | Janine Cusworth |
| https://www.resourcewales.com | a CIC overcoming barriers to volunteering, learning and work. |
| Freshwater/Microorganism analysis | Wyn Hughes |

https://ruthinfoe.org

foe.ruthin@gmail.com

https://www.facebook.com/foeruthin